CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Chwefror 14, 2017 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

Roedd Geraint Rowlands yn datgan diddordeb ynlgŷn â cheisiadau cynllunio yn Eitem 7.a. ii, iii.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 10, 2017

4. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 10, 2017

Galwad ffôn (19/1/2016) oddi wrth Mrs Rebecca Lloyd yn diolch am ysgubo ochrau ffordd trwy Bontddu.

5. Materion Ariannol

a. Bil (3/2/2017) am £272.40 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2015/16 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO.

b. Ceisiadau am gymorth ariannol:

Shelter Cymru, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Y Groes Goch Brydeinig.

Mewn llythyr (Ionawr 2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan adran 137(1) ac (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2016-17. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 £7.42, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.42 x 378 = £2,804.76.

Arian rhoddwyd yn 2015/ 2016

Cyngor ar Bopeth, Gwynedd a Môn - £100
NSPCC - £50
Gisda - £50
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru - £50
Sioe Frenhinol Cymru - Pwyllgor Apêl Cylch Dolgellau - £50
Marie Curie Cancer Care - £50

Age Cymru Gwynedd Môn - £50
Tŷ Gobaith - £50
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau - £50
Ysgol Feithrin Dolgellau - £50
Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch - £50
Ambiwlans Awyr Cymru - £300
Neuadd Bentref Bontddu: - £600
Neuadd Bentref Llanelltyd - £600
Ysgol Gynradd Llanelltyd - £650
Cyfanswm: £2,750

c. Balans yn y banc ar 29 Ionawr 2017: £7,574.01.

ch. Incwm ar hyn o bryd: £10,577.55
Gwariant ar hyn o bryd: £8,912.28 (gan gynnwys bil Swyddfa Archwiliad Cymru)
Gwariant ar Roddion fel y llynedd: £2,750.00
Felly bydd y Cyngor wedi gorwario £1,084.73 (heb gynnwys taliadau annisgwyl bydd angen eu gwneud).

d. Llythyr (2/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2017 / 2018. Tâl Aelodaeth yw £84.

6. Mynwent Llanelltyd

Llythyr (19/1/2017) oddi wrth Y Parchedig Tim Webb, Ficer Ardal Weinidogaeth Bro Cymer, yn rhoi gwybod i Dr Julian Roberts mai nid Eglwys Cymru sy'n gyfrifol am y fynwent i roi barn ar leoliad beddi ei fam a'i chwaer ond y Cyngor Gymuned.

Yn y gorffenol rhoddodd y Clerc manylion i Dr Roberts am y fynwent iddo wneud archwiliad i benderfynu lleoliad y beddi. Nid yw'r Clerc wedi cytuno neu anghytuno gyda lleoliad mae Dr Roberts wedi awgrymu. Talodd Julian Roberts £60 ar 18/5/2026 am y gwaith ymchwil y Clerc.

Gwnaeth Dr Roberts a'i frawd gwaith trwyadl i ddod o hyd lleoliad y beddi. Maent o'r farn bod un bedd rhwng beddi Margaret Crosland Seabrooke (B/011) a John Ruthven Hall (B/013a). Nid oes gofeb ar fedd B/012. Mae'r bedd arall rhwng beddi Norman Cheshire (B/043) a Ludovic Nanney Williams (B/045). Nid oes gofeb ar fedd B/044. Mae beddi B/12 a B/044 gyferbyn â'i gilydd.

Mae'r Clerc o'r farn mae posibilrwydd bod lleoliad beddi'r fam a'i chwaer yn gywir.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau Cynllunio:

i. NP5/65/320B. Gosod tanc LPG 2250 Litr. Tir ger Sgubor, Ty'n Lon Uchaf, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (18/1/2017).

ii. NP5/60/E150. Ymgynghoriad o dan Adran 37 o'r Ddeddf Trydan1989 i ail-adeiladu gwifrau drydan 11KN uwchben. Rhan o'r wifren cyflenwad trydan rhwng Dolgellau a Maentwrog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/2/2017).

iii. NP5/60/E151. Ymgynghoriad o dan Adran 37 o'r Ddeddf Trydan1989 i ail-adeiladu gwifrau drydan 33KN uwchben. Rhan o'r wifren cyflenwad trydan rhwng Dolgellau a Maentwrog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/2/2017).

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (12/1/2017) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd yn gofyn am farn cynghorau cymuned ar y broses o ymchwiliad craffu trefniadau cynllunio Cyngor Gwynedd. Amgáu mae 6 cwestiwn i ni eu hystyried.

b. Llythyr (23/1/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Maent eisiau gwybod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'r asedau sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor. Amgau mae holiadur i'w lenwi.

c. Llythyr (31/1/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Maent yn rhoi gwybod bydd gwaith amnewid camfa gyda giat, clirio tyfiant a gosod arwyddbyst ar Lwybr yn Cwm Mynach. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn wirfoddol gan Gerddwyr.

e. Llythyr (2/2/2017) oddi wrth Un Llais Cymru gan gynnwys:

a. rhybudd yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar Chwefror 23, 2017 am 7.00yh. Amgáu mae agenda'r cyfarfod.

b. Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd oedd ar Tachwedd 23, 2016.

c. Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn Llandrindod ar Rhagfyr 9, 2016.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc